## Gweddi Adeg y Grawys

Clodforwn Di, O Dduw,
am lygad i weld, a holl wasanaeth ein golwg i ni;
am glustiau i glywed, a'r holl drysorau a ddaw i ni trwy ein clyw;
am lais i lefaru, a holl hyfrydwch cyfarch a siarad;
am ddwylo i weithio, i'w hagor i roi a'u plethu i weddïo;
am draed i sefyll a cherdded a rhedeg a dawnsio.

Clodforwn Di, O Dduw,
am sbectol i warchod a chynnal golwg
pan ballo'r llygaid ac am bob darpariaeth ar gyfer deillion;
am y meicrosgob i weld y bach yn fwy,
a'r telisgob i weld y pell yn agos.

Clodforwn Di, O Dduw,
am gymorth clywed fel y gall rhai trwm eu clyw wrando ar leisiau annwyl,
ac am allu clywed trwy ffôn a radio a theledu
ac am bob cynhorthwy mewn byd ac eglwys i fyddariaid.
Clodforwn Di, O Dduw,
am bob ffordd i gadw llef a llais ar dâp a record a chompiwtar,
ac am bob help i rai mud.

Clodforwn Di, O Dduw,
am bob help i rai nad yw eu cyrff yn gryf na'u dwylo'n ystwyth,
ac am bob offer i ysgafnhau caledwaith,
am beiriannau mewn ysbytai,
siopau, ffatrïoedd ac ar faes y byd i gryfhau grym dwylo dyn.

Clodforwn Di, O Dduw,
am ffon i'r cloff, a chadair olwyn ac offer i helpu'r gwan,
am bob ffordd i gludo plant i'r ysgolion,
am athrawon brwd i'w dysgu,
ac am bopeth yn ein cymdeithas
sy'n hwyluso mynd a dod o ddydd i ddydd.

Clodforwn Di, O Dduw,
yr Hwn wyt ardderchog yn dy ofal cariadus,
yn dy ragluniaeth ddoeth, ac yn dy ofal amdanom yn Iesu Grist,
yr hwn a'n dysgodd i ddweud Ei weddi Ef,
'Ein Tad...
Amen.'